Cynllun Datblygu Ysgol : Crynodeb

Hunanwerthusiad: Trosolwg 2025 - 2026

Cryfderau:

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol isod:

- Codi safonau ieithyddol dysgwyr gan barhau i weithredu cynlluniau llafar ac ysgrifennu. Datblygu medrau darllen y dysgwyr ymhellach i godi safonau iaith dysgwyr.
- Cyflwyno addysgu mathemateg o ansawdd uchel drwy ymgorffori dulliau addysgeg effeithiol sy'n meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion. Datblygu datryswyr problemau hyderus a galluog drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth fathemategol a'u chymhwyso mewn cyd-destunau ystyrlon, go iawn.
- Addasu cynlluniau meysydd dysgu a phrofiad ein cwricwlwm er mwyn sicrhau datblygiad clir o ran medrau a chyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth.
- Sicrhau bod cyfleoedd asesu a thracio wedi eu cynllunio a bod systemau ar draws yr ysgol yn cael eu datblygu ymhellach i sicrhau cynnydd disgyblion. Sicrhau tracio cyson o bresenoldeb disgyblion o fewn grwpiau penodol.

<u>Cryfderau Allweddol</u>
Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at gyflawni ei blaenoriaethau gwella.

Mae gweithredu'r cwricwlwm llafar, datblygu amgylcheddau llythrennedd cyfoethog, cryfhau'r ddarpariaeth darllen a monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd wedi cyfrannu'r uniongyrchol at wella safonau ieithyddol dysgwyr. Derbyniodd staff hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ffonolegol, datblygu medrau llafar a sefydlu amgylcheddau llythrennedd cyfoethog sydd wedi sicrhau bod safonau llythrennedd yn cael eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm yn gynyddol effeithiol. Mae monitro llyfrau a thrafodaethau gyda disgyblion yn dangos bod medrau ysgrifennu yn datblygu'n systematig o'r adran isaf i frig yr ysgol. Gwelwyd tystiolaeth o ystod eang o genres ysgrifennu ac o ddatblygiad graddol yn ansawdd geirfa a chywirdeb iaith. Mae cyfarfodydd cynnydd tymhorol wedi galluogi adnabod dysgwyr sy'n tangyflawni a chynllunio ar gyfer eu hanghenion. Mae canfyddiadau craffu ar lyfrau yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu estynedig a bod tystiolaeth glir o ddatblygiad medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Mae dysgu proffesiynol, cydweithio drwy'r CLIP a datblygu cyfleoedd rhifedd trawsgwricwlaidd wedi cryfhau hyder staff a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon. Wrth ymgymryd â gweithgareddau monitro, er enghraifft, teithiau dysgu, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau dilys. Mae ansawdd y ddarpariaeth fathemategol yn datblygu drwy waith mapio rhifedd ar draws y cwricwlwm, gan sicrhau cyfleoedd cynyddol reolaidd i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae cydweithio drwy rwydweithiau proffesiynol yn cefnogi datblygiad hyder staff ac yn cyfrannu at fireinio arferion addysgu effeithiol wrth i'r gwaith hwn barhau i ddatblygu.

Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth fireinio'r cwricwlwm a sicrhau dilyniant cliriach mewn medrau. Derbyniodd yr ysgol grant prosiect 'Archwilio Cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol' a datblygwyd cynllun medrau cyfrifiadureg gyda chefnogaeth y consortiwm. Gyda'i gilydd mae'r cynlluniau hyn a gweithgareddau monitro'r ysgol yn dangos bod disgyblion yn cael profiadau dysgu amrywiol sy'n datblygu medrau ar draws pob maes dysgu a phrofiad.

Mae systemau asesu a thracio bellach yn gadarn ac yn cryfhau gallu staff i fonitro ac ymateb i anghenion dysgwyr. Mae Proffiliau Taith Dysgu unigol wedi ei sefydlu a thrwy gyfarfodydd tymhorol gyda rhieni wedi cryfhau cyfathrebu ynghylch cynnydd dysgwyr. Mae staff yn defnyddio cymeriadau cwestiynu a strategaethau hunanasesu yn gynyddol reolaidd i ddatblygu perchnogaeth dysgwyr dros eu cynnydd. Mae cyfarfodydd cynnydd tymhorol yn defnyddio data yn fwy effeithiol i adnabod dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Mae'r ysgol wedi gweithio gyda'r CLIP i ddatblygu mentrau presenoldeb a phrydlondeb, gan gynnwys cynhyrchu fideo hyrwyddo gan y disgyblion.

Meysydd i'w datblygu:

Llythrennedd

- Sicrhau cysondeb wrth weithredu cylchoedd darllen ym mhob dosbarth
- Datblygu ymhellach ymwybyddiaeth ffonolegol gan gynnwys rhaglen newydd Monster Phonics
- Cryfhau ymhellach y defnydd o adborth adeiladol a chyfleoedd ail-ddrafftio

Rhifedd

- Cysoni strategaethau addysgeg mathemateg ar draws yr ysgol
- Sicrhau cysondeb wrth wahaniaethu tasgau rhifedd
- Datblygu ymhellach y ddarpariaeth annibynnol o'r amgylchedd allanol i gefnogi rhifedd.
- Parhau i ddarparu cyfleoedd ystyrlon o weithgareddau er mwyn cymhwyso sgiliau ar draws y cwricwlwm.

Cwricwlwm

- Gweithredu a chysoni'r cynlluniau newydd o fewn celfyddydau mynegiannol a chyfrifiadureg
- Parhau i ddatblygu diwylliant o gynhwysiant drwy gyd-weithio gydag asiantaethau amrywiol

Monitro ac asesu

- Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth
- Parhau i fonitro presenoldeb grwpiau penodol yn fanwl
- Cryfhau cysondeb hunanasesu ar draws yr ysgol.

GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025/2026	
Blaenoriaeth	**Gwerthusiad o'r cynnydd**
Codi safonau ieithyddol dysgwyr gan barhau i weithredu cynlluniau llafar ac ysgrifennu. Datblygu medrau darllen y dysgwyr ymhellach i godi safonau iaith dysgwyr.	Mae'r camau a weithredwyd i gryfhau'r ddarpariaeth llythrennedd wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a safonau ieithyddol disgyblion. Mae gweithredu'r cwricwlwm llafar, datblygu amgylcheddau llythrennedd cyfoethog a chryfhau'r ddarpariaeth darllen wedi arwain at fwy o gysondeb yn y modd y caiff medrau llythrennedd eu datblygu a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm. Mae craffu ar lyfrau a thrafodaethau gyda disgyblion yn dangos cynnydd systematig mewn medrau ysgrifennu o'r adran isaf i frig yr ysgol, gydag ystod ehangach o genres, geirfa gynyddol gyfoethog a gwell cywirdeb ieithyddol yn amlwg yng ngwaith disgyblion. Yn benodol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu estynedig ac yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn fwy hyderus ar draws meysydd dysgu. Mae cyfarfodydd cynnydd tymhorol a monitro rheolaidd wedi galluogi staff i adnabod tangyflawni'n gynharach ac ymateb yn fwy penodol i anghenion unigolion. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y ddarpariaeth fwy cyson a'r ffocws ar fonitro cynnydd yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a sicrhau cynnydd cadarn mewn llythrennedd ar draws yr ysgol.
Cyflwyno addysgu mathemateg o ansawdd uchel drwy ymgorffori dulliau addysgeg effeithiol sy'n meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion. Datblygu	Mae'r gwaith i gryfhau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Mae gweithgareddau monitro yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gyson ac yn eu cymhwyso'n fwy hyderus ac annibynnol mewn cyd-destunau dilys ac ystyrlon. Mae mapio cyfleoedd rhifedd wedi sicrhau mwy o gysondeb a dilyniant, gan alluogi disgyblion i adeiladu ar eu dysgu blaenorol a gwneud cynnydd yn eu gallu i ddefnyddio a chymhwyso medrau ar draws y cwricwlwm. Mae dysgu

datryswyr problemau hyderus a galluog drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth fathemategol a'u chymhwyso mewn cyd-destunau ystyrlon, go iawn.	proffesiynol a chydweithio drwy'r CLIP yn parhau i fireinio arferion addysgu a chryfhau'r ddarpariaeth fathemategol ar draws yr ysgol. cenedlaethol
Addasu cynlluniau meysydd dysgu a phrofiad ein cwricwlwm er mwyn sicrhau datblygiad clir o ran medrau a chyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth.	Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth fireinio'r cwricwlwm a sicrhau dilyniant cliriach ym medrau disgyblion. Mae'r gwaith ar y celfyddydau mynegiannol a chyfrifiadureg wedi ehangu profiadau dysgu ac yn galluogi disgyblion i adeiladu ar eu dysgu blaenorol a datblygu eu medrau'n gynyddol. Mae gweithgareddau monitro yn dangos bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau'n fwy hyderus ac annibynnol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
Sicrhau bod cyfleoedd asesu a thracio wedi eu cynllunio a bod systemau ar draws yr ysgol yn cael eu datblygu ymhellach i sicrhau cynnydd disgyblion. Sicrhau tracio cyson o bresenoldeb disgyblion o fewn grwpiau penodol.	Mae'r systemau asesu a thracio cadarn yn galluogi staff i fonitro cynnydd dysgwyr yn fwy manwl ac ymateb yn brydlon i'w hanghenion. Mae cyfarfodydd cynnydd tymhorol yn sicrhau bod dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar, gan gefnogi cynnydd mwy cyson dros amser. Mae Proffiliau Taith Dysgu a strategaethau hunanasesu yn helpu dysgwyr i ddeall eu cynnydd, adnabod eu camau nesaf a chymryd mwy o berchnogaeth dros eu dysgu. Yn ogystal, mae'r gwaith ar bresenoldeb a phrydlondeb yn cefnogi ymgysylltiad dysgwyr ac yn cyfrannu at greu'r amodau ar gyfer cynnydd parhaus.

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025/2026		
Blaenoriaeth	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
Gwella medrau darllen cynnar ac uwch fedrau darllen a datblygu iaith lafar disgyblion ymhellach drwy gwreiddio cynlluniau iethydddol llafar a ffoneg yn y Gymraeg ac yn Saesneg.	• Derbyn hyfforddiant staff ar Addysgu'r Gymraeg yn y Sector Cyfrwng Cymraeg Cynllun Sefydlu Patrymau Craidd. Datblygu'r hyfforddiant hyn drwy gynllunio ar y cyd-gyda'r clwstwr ar gynllun gweithredol ar draws yr ysgol. • Prynu a sefydlu adnoddau Monster Phonics ar draws yr ysgol. • Cynnal hyfforddiant cychwynnol i'r holl staff addysgu a chynorthwywyr. • Monitro ansawdd gweithredu Monster Phonics drwy arsylwadau a chraffu ar waith.	Hyfforddiant I holl staff ar Addysgu'r Gymraeg – Cynllun Sefydlu Patrymau Craidd Adnoddau Monster Phonics Hyfforddiant Monster Phonics Asesiadau ffoneg/darllen Adnoddau darllen

	• Cynnal asesiadau llinell sylfaen ffoneg a darllen • Sefydlu diwylliant darllen positif ar draws yr ysgol. Datblygu amgylcheddau darllen deniadol ym mhob dosbarth. • Darparu amser darllen er pleser rheolaidd ym mhob dosbarth. • Hyrwyddo ystod eang o destunau Cymraeg a Saesneg sy'n adlewyrchu diddordebau'r disgyblion. • Datblygu rôl llysgenhadon darllen i hyrwyddo llyfrau a rhannu argymhellion. • Trefnu digwyddiadau darllen megis wythnos llyfr, ymweliadau awduron a sesiynau "Gollwng popeth a darllen". • Creu partneriaeth gryfach gyda rhieni drwy rannu syniadau a gweithgareddau darllen cartref. • Cynllunio cyfleoedd penodol i addysgu a chymhwyso uwchsgiliau darllen ar draws y cwricwlwm. • Datblygu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer addysgu: o Rhagfynegi o dod i gasgliadau o casglu a dehongli Gwybodaeth o gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau o adnabod safbwyntiau a thuedd o crynhoi gwybodaeth • Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb yn llafar ac yn ysgrifenedig i'r hyn maent wedi'i ddarllen. • Darparu sesiynau modelu a mentora i staff lle bo angen. • Cynnal gweithgareddau monitro reolaidd gan gynnwys, casglu llais disgyblion a staff, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, craffu ar gynllunio, craffu ar lyfrau.	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Pob aelod o staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol	**Cerrig Milltir Mawrth** • Monster Phonics a'r cynllun iaith lafar yn cael eu gweithredu'n	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Asesiadau diwedd blwyddyn yn dangos

ar Gynllun Sefydlu Patrymau Craidd a Monster Phonics. • Cynllun gweithredu ar y cyd gyda'r clwstwr ar gyfer datblygu iaith lafar wedi'i lunio a'r disgwyliadau ysgol gyfan wedi'u cytuno. • Adnoddau Monster Phonics wedi'u prynu a'r rhaglen wedi dechrau cael ei gweithredu'n gyson ar draws y dosbarthiadau perthnasol. • Asesiadau llinell sylfaen ffoneg a darllen wedi'u cwblhau er mwyn adnabod mannau cychwyn disgyblion a'r rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol. • Amgylcheddau darllen deniadol wedi'u sefydlu ym mhob dosbarth ac amser rheolaidd ar gyfer darllen er pleser wedi'i gynnwys yn y ddarpariaeth. • Llysgenhadon darllen wedi'u sefydlu a dechrau hyrwyddo llyfrau Cymraeg a Saesneg. • Monitro cychwynnol wedi'i gynnal er mwyn gwerthuso cysondeb y ddarpariaeth ac adnabod camau nesaf.	gyson, gyda modelu a mentora ychwanegol i staff lle bo angen. • Tystiolaeth o gynnydd mewn medrau ffoneg, darllen cynnar ac iaith lafar drwy gymharu ag asesiadau llinell sylfaen. • Strategaeth ysgol gyfan ar gyfer uwch fedrau darllen wedi'i sefydlu, gan gynnwys rhagfynegi, dod i gasgliadau, casglu a dehongli gwybodaeth, crynhoi, gwerthuso ffynonellau ac adnabod safbwynt a thuedd. • Cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso uwch fedrau darllen ar draws y cwricwlwm yn amlwg mewn cynllunio a gwaith disgyblion. • Disgyblion yn cael cyfleoedd cynyddol i ymateb yn llafar ac yn ysgrifenedig i'w darllen. • Partneriaeth gyda rhieni wedi'i chryfhau drwy rannu strategaethau ac adnoddau i gefnogi darllen gartref. • Gweithgareddau hyrwyddo darllen, gan gynnwys gweithgareddau dan arweiniad y llysgenhadon darllen, wedi'u cynnal. • Monitro canol blwyddyn yn dangos mwy o gysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu.	cynnydd mesuradwy mewn medrau ffoneg, darllen ac iaith lafar o fannau cychwyn disgyblion. • Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau darllen yn fwy hyderus ac annibynnol, gan gynnwys uwch fedrau darllen lle bo'n briodol. • Tystiolaeth glir bod disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso eu medrau darllen mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. • Tystiolaeth drwy lais disgyblion fod agweddau cadarnhaol at ddarllen wedi cryfhau a bod disgyblion yn darllen ystod ehangach o destunau Cymraeg a Saesneg. • Staff yn dangos mwy o hyder a chysondeb wrth addysgu ffoneg, iaith lafar a strategaethau darllen. • Gweithgareddau monitro terfynol, gan gynnwys arsylwadau, teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a chynllunio, a llais staff a disgyblion, yn dangos effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd dysgwyr. • Effaith y flaenoriaeth wedi'i gwerthuso a'r camau nesaf ar gyfer 2027-28 wedi'u hadnabod yn glir.
Cryfhau addysgeg mathemateg er mwyn sicrhau cysondeb ac effaith ar gynnydd disgyblion.	• Cytuno ar egwyddorion addysgeg mathemateg effeithiol ar draws yr ysgol (modelu, cwestiynu, datrys problemau, rhesymu a her) • Cynnal cyfres o sesiynau dysgu proffesiynol ar addysgeg mathemateg ac arferion effeithiol	Mewnol – Hyfforddiant Addysgeg Mathemateg Dysgu Profesiynol ac arsylwi arfer dda Mewnol Claire Davies CSC – Ardal allanol (darpariaeth barhaus)

	• Datblygu a chysoni dull ysgol gyfan ar gyfer gwahaniaethu mewn mathemateg • Cynnal teithiau dysgu, arsylwadau a chraffu ar lyfrau gyda ffocws ar addysgeg mathemateg • Datblygu banc o weithgareddau rhesymu a datrys problemau wedi'u halinio â'r cynnydd dysgu • Adolygu a gwella'r ddarpariaeth annibynnol yn yr amgylchedd allanol i gefnogi mathemateg a rhifedd • Sicrhau bod pob dosbarth yn cynllunio cyfleoedd mathemateg a rhifedd ystyrlon ar draws y cwricwlwm • Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion esbonio eu strategaethau mathemategol gan ddefnyddio iaith fathemategol gywir • Parhau i gydweithio drwy'r CLIP a rhwydweithiau proffesiynol i rannu a gwerthuso arferion addysgu mathemateg • Tracio cynnydd disgyblion mewn mathemateg a defnyddio'r wybodaeth i lywio addysgu ac ymyraethau	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Egwyddorion addysgeg mathemateg effeithiol wedi'u cytuno ar draws yr ysgol, gan gynnwys modelu, cwestiynu, datrys problemau, rhesymu a her. • Staff wedi derbyn dysgu proffesiynol cychwynnol ar addysgeg mathemateg ac arferion effeithiol. • Dull ysgol gyfan ar gyfer gwahaniaethu a sicrhau her briodol mewn mathemateg wedi'i ddatblygu a'i gytuno. • Mannau cychwyn a chynnydd disgyblion mewn mathemateg wedi'u hadnabod drwy ddefnyddio data asesu a thracio.	**Cerrig Milltir Mawrth** • Egwyddorion addysgeg mathemateg effeithiol yn cael eu gweithredu'n fwy cyson ar draws yr ysgol. • Dysgu proffesiynol pellach, modelu a rhannu arfer dda wedi cynyddu hyder staff wrth ddefnyddio strategaethau addysgu effeithiol. • Dulliau gwahaniaethu a her yn cael eu defnyddio'n gyson i ymateb i anghenion dysgwyr a chefnogi eu cynnydd. • Cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion resymu, datrys problemau ac esbonio eu strategaethau gan ddefnyddio	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Data asesu a thracio yn dangos cynnydd mesuradwy ym medrau mathemategol disgyblion o'u mannau cychwyn. • Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhesymu, datrys problemau a dewis strategaethau mathemategol yn fwy hyderus ac annibynnol. • Disgyblion yn gallu esbonio eu meddwl a'u strategaethau'n fwy effeithiol gan ddefnyddio iaith fathemategol briodol a chywir. • Tystiolaeth glir bod disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso eu medrau

• Banc cychwynnol o weithgareddau rhesymu a datrys problemau wedi'i ddatblygu a'i alinio â'r cynnydd dysgu. • Adolygiad o'r ddarpariaeth fathemategol annibynnol, gan gynnwys yr amgylchedd allanol, wedi'i gynnal a chamau gwella wedi'u hadnabod. • Monitro cychwynnol drwy deithiau dysgu, arsylwadau a chraffu ar lyfrau wedi adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu.	iaith fathemategol gywir yn amlwg mewn gwersi a gwaith disgyblion. • Pob dosbarth yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gymhwyso mathemateg a rhifedd ar draws y cwricwlwm. • Darpariaeth annibynnol, gan gynnwys yr amgylchedd allanol, yn cynnig cyfleoedd mwy pwrpasol i ddatblygu mathemateg a rhifedd. • Tracio canol blwyddyn yn dangos cynnydd disgyblion ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i addasu addysgu a darparu ymyraethau priodol. • Cydweithio drwy'r CLIP a rhwydweithiau proffesiynol yn cyfrannu at fireinio a rhannu arferion addysgu effeithiol.	mathemateg a rhifedd mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm. • Staff yn dangos mwy o gysondeb a hyder wrth ddefnyddio egwyddorion addysgeg mathemateg effeithiol. • Gweithgareddau monitro terfynol, gan gynnwys arsylwadau, teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a llais disgyblion, yn dangos effaith gadarnhaol yr addysgeg ar safonau a chynnydd dysgwyr. • Effaith y flaenoriaeth wedi'i gwerthuso a'r camau nesaf ar gyfer 2027-28 wedi'u hadnabod yn glir.
Datblygu diwylliant cynhwysol lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi ac yn ffynnu.	**IQM** • Sefydlu gweithgor cynhwysiant ysgol gyfan. • Cynnal archwiliad cynhwysiant yn erbyn meini prawf IQM. • Casglu tystiolaeth o arferion cynhwysol ar draws yr ysgol. • Datblygu a monitro cynllun gweithredu IQM. • Rhannu arfer effeithiol gyda rhanddeiliaid. **Ysgol Noddfa** ● Cofrestru ar raglen Ysgol Noddfa. ● Darparu hyfforddiant i staff a llywodraethwyr. ● Cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth drwy'r cwricwlwm. ● Datblygu cysylltiadau â'r gymuned leol a sefydliadau perthnasol. ● Dathlu cyfraniadau pobl o gefndiroedd amrywiol. **Hawliau Plant**	Hyfforddiant Ysgol Noddfa Hyfforddiant Hawliau Plant

	• Adolygu gweledigaeth yr ysgol yn erbyn egwyddorion Hawliau Plant. • Defnyddio erthyglau'r CCUHP wrth gynllunio gweithgareddau dysgu. • Cryfhau rôl Cyngor yr Ysgol a grwpiau llais y disgybl. • Datblygu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau ysgol. **DARPL** • Cynnal archwiliad o'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu. • Datblygu adnoddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru a'r byd. • Darparu dysgu proffesiynol ar wrth-hiliaeth a gwrth-ragfarn. • Monitro profiadau a llais pob grŵp o ddysgwyr. **Diwylliant Cynhwysol** • Adolygu polisïau perthnasol trwy lens cynhwysiant. • Datblygu amgylchedd sy'n dathlu amrywiaeth ieithyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol. • Sicrhau bod ymyraethau lles ac ALN yn cefnogi anghenion pob dysgwr. • Defnyddio holiaduron, teithiau dysgu a llais y disgybl i fonitro ymdeimlad o berthyn.	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Gweithgor cynhwysiant ysgol gyfan wedi'i sefydlu gyda rolau a chyfrifoldebau clir. • Archwiliad cynhwysiant cychwynnol wedi'i gynnal yn erbyn meini prawf IQM, gyda chryfderau a meysydd i'w datblygu wedi'u hadnabod. • Cynllun gweithredu IQM wedi'i lunio a thystiolaeth o arferion cynhwysol yn dechrau cael ei chasglu.	**Cerrig Milltir Mawrth** • Cynllun gweithredu IQM yn cael ei weithredu a'i fonitro'n rheolaidd, gyda thystiolaeth gynyddol o arferion cynhwysol ar draws yr ysgol. • Egwyddorion Ysgol Noddfa, Hawliau Plant a DARPL yn fwy amlwg mewn profiadau dysgu, yr amgylchedd ysgol a gweithgareddau ysgol gyfan. • Staff yn dangos mwy o hyder wrth hyrwyddo gwrth-hiliaeth,	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Tystiolaeth monitro ac adborth dysgwyr yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn perthyn i gymuned yr ysgol. • Dysgwyr yn dangos dealltwriaeth gynyddol o hawliau, amrywiaeth, cydraddoldeb a pharch at eraill. • Llais y disgybl yn cael effaith glir ar

• Yr ysgol wedi cofrestru ar raglen Ysgol Noddfa, gyda staff a llywodraethwyr yn dechrau derbyn hyfforddiant perthnasol. • Gweledigaeth, polisïau a'r cwricwlwm wedi dechrau cael eu hadolygu drwy lens Hawliau Plant, DARPL a chynhwysiant. • Cyngor yr Ysgol a grwpiau llais y disgybl wedi'u cryfhau er mwyn cynyddu cyfraniad dysgwyr at benderfyniadau. • Gwaelodlin o lais disgyblion a'u hymdeimlad o ddiogelwch, perthyn a chael eu gwerthfawrogi wedi'i chasglu	gwrth-ragfarn, hawliau plant a chynhwysiant. • Adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol Cymru a'r byd yn fwy cyson. • Dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynegi barn a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu profiadau yn yr ysgol. • Cysylltiadau â'r gymuned a sefydliadau perthnasol wedi'u datblygu er mwyn cyfoethogi profiadau dysgwyr. • Monitro canol blwyddyn yn dangos bod ymyraethau lles ac ALN yn ymateb yn briodol i anghenion dysgwyr. • Llais disgyblion yn dangos ymdeimlad cynyddol o berthyn, cael eu parchu a'u cynnwys ym mywyd yr ysgol	benderfyniadau a datblygiadau ysgol gyfan. • Tystiolaeth glir bod y cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu yn adlewyrchu ac yn dathlu amrywiaeth Cymru a'r byd. • Tystiolaeth bod ymyraethau lles ac ALN yn cefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n well â'u dysgu a gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn. • Arferion cynhwysol wedi'u gwreiddio'n fwy cyson ar draws yr ysgol ac arfer effeithiol yn cael ei rhannu gyda rhanddeiliaid. • Gweithgareddau monitro terfynol yn dangos effaith gadarnhaol ar les, ymdeimlad o berthyn, cyfranogiad a chynnydd dysgwyr. Effaith y flaenoriaeth wedi'i gwerthuso a'r camau nesaf ar gyfer 2027-28 wedi'u hadnabod yn glir.
Cryfhau asesu ar gyfer dysgu a defnydd o ddata i sicrhau gwell cynnydd	• Adolygu a chytuno ar ddisgwyliadau ysgol gyfan ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion. Datblygu iaith asesu gyffredin sy'n briodol i oedran y disgyblion. • Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion adnabod eu cryfderau a nodi camau nesaf clir ar gyfer gwella. • Datblygu defnydd effeithiol o lyfrau gwaith, portffolios digidol a thrafodaethau dysgu i gefnogi myfyrio. • Rhannu arferion effeithiol drwy gyfarfodydd staff a gweithgareddau cymedroli. • Adolygu systemau casglu, olrhain a chyflwyno data er mwyn sicrhau cysondeb. • Staff I ddadansoddi canlyniadau profion safonol a data Mewnol er mwyn nodi patrmau a thueddiadau ar lefel unigol, grwp a dosbarth. Datblygu hyder staff wrth ddehongli data a defnyddio	

	gwybodaeth asesu i lywio addysgu. • Cynnal cyfarfodydd cynnydd tymhorol rhwng arweinwyr a staff addysgu. Defnyddio canfyddiadau'r data i lywio cynllunio, ymyriadau a darpariaeth her.	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Disgwyliadau ysgol gyfan ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion wedi'u hadolygu a'u cytuno. • Iaith asesu gyffredin, sy'n briodol i oedran a chyfnod dysgwyr, wedi'i sefydlu ar draws yr ysgol. • Systemau casglu, olrhain a chyflwyno data wedi'u hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd. • Data cychwynnol a chanlyniadau profion safonol wedi'u dadansoddi i adnabod mannau cychwyn, patrymau, grwpiau a dysgwyr sydd angen cefnogaeth neu her ychwanegol. • Cyfarfodydd cynnydd tymhorol wedi'u sefydlu rhwng arweinwyr a staff addysgu. • Staff wedi dechrau rhannu arferion effeithiol mewn asesu ar gyfer dysgu drwy gyfarfodydd staff a gweithgareddau cymedroli. • Monitro cychwynnol wedi'i gynnal i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn arferion asesu.	Cerrig Milltir Mawrth • Hunanasesu ac asesu cyfoedion yn cael eu defnyddio'n fwy cyson ac effeithiol ar draws yr ysgol. • Dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i adnabod eu cryfderau a deall eu camau nesaf mewn dysgu. • Llyfrau gwaith, portffolios digidol a thrafodaethau dysgu yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi myfyrio ar gynnydd. • Staff yn dangos mwy o hyder wrth ddehongli data ac ymateb i'r wybodaeth asesu wrth gynllunio dysgu ac addysgu. • Cyfarfodydd cynnydd tymhorol yn adnabod dysgwyr a grwpiau sydd angen cefnogaeth neu her ychwanegol ac yn arwain at gamau gweithredu penodol. • Data asesu yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyson i addasu cynllunio, targedu ymyriadau a sicrhau lefel briodol o her. • Gweithgareddau cymedroli a rhannu arfer yn sicrhau mwy o gysondeb mewn disgwyliadau ac arferion asesu.	Cerrig Milltir Gorffennaf • Data diwedd blwyddyn yn dangos cynnydd mesuradwy gan ddysgwyr o'u mannau cychwyn, gyda thystiolaeth bod ymyriadau a darpariaeth her wedi cael effaith briodol. • Y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu adnabod eu cryfderau, deall eu cynnydd a nodi camau nesaf clir yn eu dysgu. • Dysgwyr yn defnyddio hunanasesu ac asesu cyfoedion yn fwy hyderus ac annibynnol i wella ansawdd eu gwaith. • Staff yn defnyddio data ac ystod o wybodaeth asesu yn hyderus i adnabod anghenion dysgwyr ac addasu addysgu yn amserol. • Systemau tracio yn darparu darlun clir o gynnydd unigolion, grwpiau a dosbarthiadau, gan alluogi arweinwyr i adnabod tangyflawni a gweithredu'n brydlon. • Gweithgareddau monitro terfynol yn dangos bod arferion asesu mwy cyson a defnydd effeithiol o ddata yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd dysgwyr.